Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Tregarth
Canolfan Gymuned Tregarth
Tregarth
Bangor
Gwynedd
LL57 4AW

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2015**

**gan**


**Nicholas Jones**

**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Tregarth yn lleoliad ym mhentref Tregarth, ger Bangor, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'n cyfarfod yng nghanolfan gymunedol y pentref. Mae'r lleoliad ar agor am bump bore'r wythnos. Mae gan y lleoliad saith aelod o staff, sy'n mynychu ar ddiwrnodau gwahanol yn ystod yr wythnos.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 24 o blant. Mae'n derbyn plant rhwng dwy a phedair oed. Ar adeg yr arolygiad, roedd 21 o blant yn mynychu, naw ohonynt wedi'u hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un plentyn o darddiad gwyn Prydeinig ac mae'r lleiafrif yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Mae ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym Medi 2012 ac mae hi newydd ail ddechrau'r rôl er Ebrill 2015. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Ionawr 2014 a chan Estyn yn Ionawr 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- safonau boddhaol llawer y plant yn llythrennedd a rhifedd;
- ymddygiad afreolus mwyafrif y plant;
- y cynllunio priodol o brofiadau dysgu;
- y berthynas agos rhwng oedolion a phlant a'r gofal cyffredinol da;
- yr addysgu addas;
- y prosesau asesu boddhaol;
- y defnydd anhrefnus o'r adeilad a'r ardal allanol; a'r
- materion o bryder i wneud ag iechyd a diogelwch.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd y:

- cofnod boddhaol o weithredu newidiadau;
- systemau hunan arfarnu a chynllunio strategol priodol;
- partneriaethau da sy'n bodoli gydag asiantaethau allanol; a
- diffyg cadernid y pwyllgor rheoli wrth fonitro'r ddarpariaeth a gwelliannau yn safonau'r plant.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llythrennedd a rhifedd y plant

A2 Datblygu gwell strategaethau i reoli ymddygiad y plant a lefelau sŵn yn yr adeilad

A3 Gwella ansawdd yr addysgu i herio plant yn unol â'u galluoedd

A4 Sicrhau bod asesiadau rheolaidd yn arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn dysgu'r plant

A5 Datblygu a chyfoethogi'r adnoddau a'r profiadau yn yr ardal allanol

A6 Datblygu systemau'r pwyllgor rheoli, yr arweinydd a'r staff er mwyn ymsefydlu'r cynllunio strategol a'r hunan arfarnu ym mywyd dyddiol y lleoliad

A7 Mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r mwyafrif o blant yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn gwneud gwelliannau addas wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae safonau'r mwyafrif o blant yn llythrennedd a rhifedd yn ddigonol. Mae lleiafrif o blant yn trafod syniadau gyda phlant eraill ac oedolion yn synhwyrol. Mae'r plant yma'n gwrando'n astud ar ei gilydd ar y carped wrth drafod storïau a'r tywydd ar y cyd.

Mae'r mwyafrif o blant yn trafod lliwiau'n synhwyrol wrth ddefnyddio cyfarpar lliwgar. Mae'r lleiafrif yn siarad yn hyderus a chywir am sut y byddent yn prynu a gwerthu ffrwythau yn y siop ffrwythau. Mae ychydig yn defnyddio arian yn ystyrlon wrth chwarae rôl y gwerthwr ffrwythau.

Lleiafrif o'r plant sy'n eistedd yn dawel wrth wrando ar gyflwyniad i dasg. Mae'r mwyafrif ohonynt yn ymuno'n or-frwdfrydig wrth drafod y tasgau ac maent yn aml yn anwybyddu cyfarwyddiadau'r oedolion. Mae'r lleiafrif yn ymateb yn dda wrth ganu caneuon a hwiangerddi. Mae lleiafrif yn awyddus i ateb cwestiynau am yr hyn y maent yn eu gwneud ac mae'r plant yma'n ymdrechu i orffen y dasg a osodwyd iddynt. Ychydig iawn o blant sy'n dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol ac maent yn dal llyfrau'n gywir a thrafod y cynnwys yn hyderus gyda'i gilydd ac oedolion.

Mae ychydig o blant yn gwneud marciau pwrpasol yn eu hysgrifennu cynnar. Mae'r ychydig yma'n datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol drwy wneud marciau a pheintio. Mae ganddynt ddealltwriaeth sylfaenol o ddiben ysgrifennu ac maent yn gwneud marciau'n ystyrlon. Mae ychydig iawn o blant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau gyda chymorth mewn ffurfiau eithaf adnabyddus, wrth drafod pensiliau a chreonau.

Mae lleiafrif o blant yn datblygu medrau rhifedd cynnar yn dda. Maent yn cyfrif gwrthrychau i bump yn eithaf cywir ac mae ychydig iawn o blant yn adnabod ac enwi rhifau i bump yn gywir. Mae ychydig iawn o blant yn defnyddio ystod bridol o iaith fathemategol gyda'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio gwahanol deganau fel 'bach' a 'mawr' wrth chwarae â loriau ac wrth adeiladu blociau.

Mae'r lleiafrif o blant yn defnyddio mathemateg yn ymarferol wrth gymharu'r gwahaniaethau mewn siapiau fel petryal, sgwâr, cylch a thriongl. Mae ychydig o blant yn grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir.

Mae bron pob un plentyn yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddyd yn y Gymraeg, fodd bynnag, lleiafrif sy'n defnyddio'r Gymraeg yn naturiol heb anogaeth. Mae llawer yn defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus ac yn defnyddio rhaglenni'r cyfrifiadur yn bwrpasol.

**Lles: Digonol**

Mae llawer o blant yn unigolion hapus a hyderus. Mae llawer ohonynt, mewn perthynas â'u hoedran, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut gallant gadw'n iach. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo yn drylwyr cyn bwyta'u ffrwythau ac yfed dŵr a llaeth. Maent yn gwneud hyn yn annibynnol ac effeithiol, sy'n cynnwys sychu'u dwylo heb lawer o anogaeth. Mae llawer o'r plant yn meddu ar ddealltwriaeth dda fod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau. Nid ydynt mor ymwybodol bod chwarae tu allan a rhedeg o gwmpas yr ardal allanol yn eich cadw'n heini.

Mae gan lleiafrif o blant agwedd dda at ddysgu. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr holl brofiadau a gynigir iddynt. Mae'r lleiafrif yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar yr oedolion. Mae'r lleiafrif yn ymddwyn yn dda. Mae'r plant yma'n ymgymryd yn llawn â phob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau priodol. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn canolbwyntio ar dasgau ac maent yn afreolus wrth weithio ag eraill. Mae lleiafrif o blant yn gwneud penderfyniadau synhwyrol drostynt eu hunain, er enghraifft wrth ofyn am ddefnyddio cyfarpar yn eu tro.

Mae lleiafrif o'r plant yn uniaethu'n dda â'i gilydd ac ag oedolion ac ymwelwyr. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol o anghenion pobl eraill ac yn rhannu adnoddau o'u gwirfodd. Mae'r lleiafrif yn dangos lefelau cadarn o gymhelliant, ymgysylltu a chanolbwyntio.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r cynllunio yn diwallu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn briodol ac yn cyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n foddhaol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol a phresennol y plant. Mae cyfleoedd digonol ar gael i bob plentyn i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm tu mewn yr adeilad.

Yr arweinydd sy'n paratoi'r cynllunio ar gyfer y staff ac maent yn trafod gweithgareddau'r themau yn ddyddiol. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn cael digon o effaith ar godi safonau llythrennedd a rhifedd y plant.

Mae gweithgareddau a thasgau penodol wedi'u cynllunio a'u paratoi'n addas. Mae gan y plant ryddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun. Fodd bynnag, ar adegau mae'r broses yma'n afreolus ac anhrefnus. Mae'r amcanion dysgu yn cael eu cynllunio'n briodol. Darperir gweithgareddau addas i'r plant i ddechrau datblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad creadigol a chorfforol. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn gadarn.

Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol â'r plant yn y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn dda. Mae'r staff yn gyson gyfeirio'r plant tuag at ddefnyddio cyfarpar technolegol fel y cyfrifiadur a thil y siop. Mae gan blant cyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau

diddorol fel chwarae rôl yn y siop, arbrofi â thywod, dwrhau planhigion, trafod y tywydd ac astudio llyffant yn y pwll natur bach.

Rhoddir pwyslais penodol ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Darperir cyfleoedd da i'r plant i ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill fel Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae digon o gyfleoedd i'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach a datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol foddhaol o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas agos rhwng yr holl staff a'r plant. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn gosod amcanion dysgu clir ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws i sicrhau bod plant unigol yn cael eu herio'n briodol yn unol â'u galluoedd. Felly, mae mwyafrif o'r plant yn colli diddordeb yn y dasg ac mae eu hymddygiad yn gwaethygu.

Mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol. Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r staff yn ymyrryd yn ormodol ac nid ydynt yn caniatáu i'r plant i ddatblygu ei medrau annibynnol yn llwyddiannus. Maent yn gorfod rheoli ymddygiad llawer o blant yn rheolaidd, sy'n effeithio ar safon yr addysgu.

Mae'r staff yn modelu iaith yn dda i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Yn yr adeilad, mae'r staff yn ceisio darparu amgylchedd diddorol. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau'n llwyddiannus fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn dysgu'n effeithiol. Nid yw'r addysgu yn yr awyr agored yn ysgogol.

Mae gweithdrefnau asesu priodol yn bodoli. Mae'r cofnodion o gyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n ddigonol. Nid yw'r asesiadau'n arwain, gyda digon o fanylder, at dargedau plant unigol a'r camau nesaf iddynt yn eu haddysg. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod gofal dyddiol a iechyd y plant yn dda. Mae ymwelwyr ac ymweliadau yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn ymweld â'r gymuned trwy deithiau o amgylch y pentref a'r ardal gyfagos. Mae'r defnydd o'r ardal leol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn llwyddiannus.

Mae darpariaeth dda gan y lleoliad ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y plant. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol y plant mor gadarn, sy'n cyfrannu at ymddygiad afreolus. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddweud diolch. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro yn briodol wrth fwyta ffrwythau ac yfed diod o gwmpas y bwrdd bwyta yn y caffi. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae cyfleoedd da ar

gael i'r plant i ail-gylchu papur, plastig a bwyd. Mae'r lleoliad yn plannu llysiau a blodau mewn potiau a sachau yn yr ardal allanol, sy'n dechrau datblygu eu dealltwriaeth am gynaliadwyedd yn briodol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro yn dileu aflonyddwch ac ymddygiad annerbyniol. Mae gan y staff gymwysterau addas a phrofiad priodol. Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol iawn. Defnyddir arbenigedd staff yn briodol wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau. Maent yn ofalus iawn wrth oruchwylio'r plant sy'n symud o'r tu mewn i'r ardal allanol, oherwydd y gwagle cyhoeddus sydd rhwng y drws a chlwyd yr ardal allanol.

Mae'r drysau ar gau a dim ond aelod o staff sy'n eu hagor. Nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i'r plant gael eu casglu ac yn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu gofalwr cyfarwydd. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn dda ar y cyfan. Hysbyswyd y pwyllgor rheoli am fater sy'n ymwneud ac iechyd a diogelwch sydd angen sylw brys am ei fod yn destun pryder. Fodd bynnag, mae'r staff yn monitro gofal y plant ynglŷn â hyn yn ofalus iawn.

Yr arweinydd yw'r cydlynwr anghenion dysgu ychwanegol. Mae hi'n ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion arbennig.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiedir gan y staff, yn hyrwyddo ethos addas. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm priodol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus yn yr adeilad i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Fodd bynnag, mae'r adeilad yn agored iawn ac mae'r lefelau sŵn yn annerbyniol. Mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar ymddygiad heriol ychydig o blant a safonau addysgu'r staff. Mae hwn yn ddiffyg pwysig am ei fod yn cyfrannu at amgylchedd afreolus.

Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn briodol. Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n effeithiol rhwng y gweithgareddau parhaus a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

Nid yw'r ardal tu allan yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd priodol ar gael i'r plant i dyfu planhigion mewn potiau a sachau. Mae hwn yn ymestyn yn ddigonol eu dealltwriaeth o sut mae planhigion yn datblygu.

Hysbyswyd y pwyllgor rheoli am fater sy'n ymwneud ac iechyd a diogelwch sydd angen sylw brys.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd newydd ail-gydio yn ei swydd. Mae hi'n egnïol ac mae hi'n gweithio'n agos gyda gweddill y staff i greu ethos addas, sy'n annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. Mae'r arweinydd, dan arweiniad yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin, wedi cyflwyno nifer o strategaethau yn ddiweddar i symud y lleoliad ymlaen. Fodd bynnag, nid yw'r datblygiadau sydd ar waith wedi ymsefydlu'n ddigonol hyd yma i wella ansawdd.

Mae'r hyfforddiant a ddarperir yn cefnogi datblygiad proffesiynol yr arweinydd a'r staff yn briodol. Erbyn hyn mae'r wybodaeth a ddatblygir yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ac yn dechrau symud y lleoliad ymlaen yn strategol. Mae cyfrifoldebau penodol gan yr arweinydd i ddatblygu'r lleoliad fel cymuned ddysgu. Ar hyn o bryd mae hi'n rhannu'r arferion newydd yn ddigonol gyda gweddill y staff i wella'u harferion proffesiynol a safonau'r plant.

Mae'r staff yn cyfrannu'n weithredol drwy rannu cyfarwyddiadau clir â'i gilydd. Maent hefyd yn derbyn cyngor o asiantaethau allanol er mwyn gwella. Yn ystod yr arolwg, roedd ethos addas a gweledigaeth briodol i ddarparu'r profiadau gorau posibl i'r plant, er bod anawsterau gyda'r adeilad a'r ardal allanol yn bodoli. Mae'r pwyllgor rheoli yn chwarae rôl anghyson ym mywyd y lleoliad. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth ac mae'r arweiniad perthnasol yn cwrdd â'r gofynion cyfreithiol ac ariannol yn effeithlon. Fodd bynnag, nid ydynt yn monitro effaith y ddarpariaeth yn fanwl i sicrhau gwelliannau yn safonau llythrennedd a rhifedd y plant.

Mae'r systemau hunan werthuso a'r broses o gynllunio'n ddatblygiadol yn newydd iawn ac yn dechrau cael ei fonitro a chyfarwyddo'n well gan y pwyllgor rheoli. Mae'r gefnogaeth o'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn effeithiol ac wedi cefnogi'r lleoliad yn sylweddol dros gyfnod o amser.

Mae'r cynllun datblygu yn cael ei strwythuro'n briodol yn ôl llinynau amser a chyfrifoldebau; fodd bynnag, nid ydy'r cynllun wedi cael yr amser priodol i effeithio ar strategaeth hir dymor y lleoliad. Mae'r newidiadau staffio a'r anghysondebau sy'n deillio o hyn, wedi rhwystro ardaloedd sydd eisiau gwella. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r prosesau newydd sydd nawr yn eu lle yn dangos gwelliannau cadarnhaol mewn amser byr. Mae'r lleoliad wedi rhoi ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunan arfarnu yn newydd, fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau wedi arwain eto at wella ansawdd y ddarpariaeth ymhellach. Erbyn nawr, mae'r prosesau hunan arfarnu'n fwy systematig a chlir. Mae'r staff cyfan yn fwy ymwybodol o bwrpas ac effaith hunan arfarnu effeithiol. Mae'r rheolwyr a'r arweinydd yn datblygu gwell ddealltwriaeth o gryfderau a gwendidau'r lleoliad. Maent nawr yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach a chreu ffocws ar wella safonau'r plant yn llythrennedd a rhifedd.

Mae’r cynllun datblygu, sy’n deillio o’r hunan arfarnu diweddar, yn dechrau cael effaith gadarnhaol er mwyn gwella’r lleoliad ymhellach. Mae ffocws y cynllun yn targedu meysydd penodol ac yn dechrau herio’r lleoliad i wella.

Mae’r staff wedi cael eu cynnwys mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu da. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda’r awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin. Gwnaed cynnydd anghyson wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf ynglŷn â’r plant yn ymateb i’w gwaith a datblygu’r hunan arfarnu ymhellach. Yn ddiweddar, mae’r pwyllgor rheoli a’r arweinydd wedi dechrau mynd i’r afael yn fwy effeithiol â’r agweddau a nodwyd i wella yn yr adroddiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r rhieni a’r gofalwyr, yn yr atebion i’r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â’r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi’r safonau gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi’r polisi drws agored a’r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â’r staff. Erbyn i’r plant adael y lleoliad, mae’r rhieni’n teimlo eu bod wedi’u paratoi’n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae’r cysylltiadau gyda’r rhieni, y gymuned yn gyffredinol, y Mudiad Meithrin a’r awdurdod lleol yn dda.

Mae’r lleoliad yn elwa’n fawr o’r gefnogaeth a ddarperir gan staff yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin. Mae’r cyngor a’r awgrymiadau wedi bod yn gymorth i ddechrau symud y lleoliad ymlaen. Maent felly’n dechrau cyfrannu’n bwrpasol at godi safonau a gwella’r ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae’r newidiadau yn y staffio wedi achosi anghysondebau yn y ddarpariaeth ac arweiniad dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn nawr, caiff staffio, adnoddau a’r cyllid eu rheoli’n well. Mae gwybodaeth y staff yn datblygu drwy hyfforddiant briodol i gyflwyno cwricwlwm addas. Caiff arbenigedd y staff ei ddefnyddio’n dda ac maent yn gweithio’n effeithiol ochr yn ochr â’i gilydd i geisio gwella cyflawniadau’r plant.

Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau tu mewn yr adeilad ac fe’u defnyddir yn effeithiol i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae’r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy’n annog annibyniaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Nid yw’r lleoliad yn defnyddio’r ardal allanol yn effeithiol.

Mae’r lleoliad yn darparu profiadau priodol sydd wedi cael eu cynllunio’n foddhaol. Mae cefnogaeth asiantaethau allanol wedi sicrhau gwell cysondeb, safonau priodol a gwell ddarpariaeth yn ddiweddar. Er bod llawer wedi’i gyflawni yn y misoedd diwethaf, nid yw’r cynllunio strategol a’r blaenoriaethau datblygu wedi cael yr amser i sefydlu ac effeithio’n briodol ar y cynllunio, yr asesu a’r ddarpariaeth.

Er bod cynnydd i weld yn ddiweddar mewn nifer o feysydd, mae’r lleoliad yn rhoi gwerth digonol am arian ar hyn o bryd.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |